AM DDIM


Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Synod Cymru

Rhifyn 236 Mehefin – Gorffennaf 2022

# Gwyliedydd






# Ar Drothwy Cyfnod Newydd

## *gan y Diacon Gwenllian Roberts Knighton*

Mae haf 2016 yn aros yn fy nghof am fwy nag un rheswm. Dyna flwyddyn y Genedlaethol yn y Fenni – digwyddiad cyffrous i ni, drigolion y dre, ac yn ôl y sôn, achlysur hapus a llwyddiannus i ymwelwyr o bob cwr o Gymru hefyd. Dwi'n cofio'r her o drefnu gwirfoddolwyr lleol o'r gwahanol enwadau i arwain yr addoliad dyddiol ym Mhabell yr Eglwysi, yn ogystal â thimau drwy'r dydd i weini te a choffi (heb anghofio'r pice ar y maen!), gan sicrhau bod o leiaf un ym mhob tîm oedd yn rhugl yn y Gymraeg.

**Ymweliad annisgwyl**

Rhywbeth arall ddigwyddodd yn fuan cyn hynny oedd ymweliad annisgwyl gan gadeirydd y Wales Synod, y Parchg. Ddr. Stephen Wigley. Ymweliad bugeiliol, reit siŵr (roeddwn wedi derbyn llawdriniaeth ychydig yn gynharach yn y flwyddyn), ond roedd agenda arall ganddo hefyd: gofyn i fi gysidro dod yn aelod o'r Cyngor, sef y pwyllgor sy'n dod â'r synodau Cymraeg a Saesneg eu hiaith yng Nghymru at ei gilydd. O, a gyda llaw, fi oedd i gadeirio'r pwyllgor o hynny ymlaen!

Mae chwarae rhan yng ngwaith y Cyngor wedi bod yn fraint ac yn ffordd o gadw mewn cysylltiad â phobl yn Synod Cymru hefyd. Tasg y pwyllgor hwn yw cydgysylltu a hybu gwaith datblygu a dysgu, perthnasau ecwmenaidd, ac, yn bwysig iawn, trafod yr her i bawb ohonom i fod yn effeithiol yn ein cenhadaeth i'r Gymru gyfoes. Ar ôl mis Medi bydd y materion yma dan drafodaeth yn y Synod newydd wrth gwrs, ond bydd pwyllgor newydd hefyd i olynu'r Cyngor er mwyn cadw llygad ar yr agweddau yma ar y gwaith ar draws y ddwy iaith.

**Newidiadau ieithyddol**

Mae'n ymddangos i mi bod cysylltiad o ryw fath rhwng y digwyddiadau yn 2016. Mae'r ddau yn tystio i'r newidiadau ieithyddol sy'n bodoli ar draws Cymru a'r angen i fynd i'r afael â nhw. Tra bod y cyfrifiadau diweddar yn dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y 'cadarnleoedd' gynt, cawn fwy o siaradwyr Cymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru nag ers blynyddoedd. Rhaid cyfaddef roedd hyn yn syndod wrth i mi ddod i fyw i'r Fenni (sydd, fel roeddwn yn gobeithio, wedi profi yn hynod gyfleus i gadw cysylltiad â theulu, llys deulu a ffrindiau). Nid 'Wales *and* Monmouthshire' bellach, fel dwi'n cofio clywed am y lle yn fy mhlentyndod, ond sir, yn ôl cyfrifiad 2011, lle mae bron 10% yn siarad Cymraeg, a dosbarthiadau i ddysgu'r iaith yn dal yn orlawn - yn cynnwys trigolion yr hen gymoedd diwydiannol a phobl o Loegr sydd wedi croesi'r ffin. Yn y Fenni erbyn hyn mae Ysgol Gynradd Gymraeg, Cymdeithas Gymraeg (Cymreigyddion y Fenni), cangen o Ferched y Wawr, eisteddfod ddwyieithog ac addoliad Cristnogol drwy'r Gymraeg unwaith y mis (dim llawer llai aml nag ambell gapel arall yng nghefn gwlad).

**Yr Efengyl mewn Cymru amlieithog**

Ers blynyddoedd mae diddordeb gen i yn yr hyn a elwir yn 'ddiwinyddiaeth gyd-destunol'. Mae gwreiddiau'r ffordd hon o ddiwinydda yn estyn yn ôl i'r 1970au a diwinyddiaeth rhyddhad America Ladin. Wrth edrych ar bethau o safbwynt diwinyddiaeth gyd-destunol, mae'r Efengyl yn gofyn cwestiynau am y gymdeithas sydd o'i hamgylch, ond hefyd yn caniatáu i'r cyd-destun osod cwestiynau am ein ffordd ni o ddeall yr Efengyl. Os ydym, er enghraifft, wedi credu bod y Beibl yn caniatáu i ni reoli byd natur fel y dewiswn, pa gwestiynau sydd angen i ni eu gofyn nawr am y modd rydym yn deall ein ffydd yn wyneb newid hinsawdd?

Mewn gwirionedd, yng Nghymru, rydyn ni'n byw nid yn unig mewn gwlad sy'n swyddogol ddwyieithog erbyn hyn (diolch byth), ond hefyd sy'n cynnwys pobl a chanddynt sawl iaith arall yn famiaith iddynt (neu efallai, fel yn achos y Gymraeg i mi, yn 'dadiaith'!). I ddod yn ôl i'r Fenni am eiliad, cawn yn yr Eglwys Fethodistaidd yng nghanol y dre, ychydig ohonom sy'n siarad Cymraeg, pâr priod gyda'r Afrikaans yn iaith gyntaf iddynt, gwraig o Zimbabwe sy'n siarad Shona (ac iaith arall yn ogystal â Saesneg) ac un arall sy'n siarad o leiaf un o ieithoedd Ghana. Yn y dre, mae nyrsys o Ynysoedd Philippines, meddygon o'r India ac erbyn hyn o leiaf 10 teulu o Syria ac Afghanistan sydd wedi cyrraedd gyda'r drefn swyddogol o roi cartrefi i ffoaduriaid. Beth sydd gan y cyd-destun yma o amlieithrwydd i'w ddweud wrthym am ein ffordd o fod yn eglwys? Wel, mae stori'r Pentecost a gallu'r Ysbryd Glân i hybu deall ar draws ffiniau iaith yn lle da i gychwyn. Wedi'r cyfan, dim ond dwy iaith fydd gan y Synod newydd! Gweddïwn am nerth yr Ysbryd wrth i ni fynd ymlaen. Tan fis Medi, felly!

***Diolch yn fawr i Gwenllian am ymateb i'r gwahoddiad i ddweud gair fel un sy'n aelod ar hyn o bryd yn Wales Synod. Bydd 'O'r Gadair ar y Goror' yn ôl y tro nesaf.***

# *Gwyliedydd*

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 236**
**MEHEFIN – GORFFENNAF 2022**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn trwy'r post £7.

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"
*SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA*

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
5 GORFFENNAF 2022

Llun y clawr gan Robert Thorley
Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

# Diolch

Diolch yn fawr iawn am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.

| | |
|---|---|
| **Iola Evans, Croesoswallt** | **£ 10-00** |
| **Capel Seion, Llanrhaeadr ym Mochnant** | **£100-00** |
| **Ffrind** | **£ 30-00** |
| **Olwen Whomsley, Aberhonddu** | **£ 30-00** |
| **Y Parchg. M. Presdee, Y Barri** | **£ 10-00** |
| **Islwyn Evans, Llanfairfechan** | **£ 20-00** |
| **CYFANSWM** | **£200-00** |



**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**
Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn y ddau fis nesaf. Boed bendith Duw ar ei holl waith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.



**Mehefin**
5 Dyffryn Clwyd
12 Gwynedd a Môn
19 Gwynedd a Môn
26 Sul y Gynhadledd Fethodistaidd

**Gorffennaf**
3 Sul ar ôl y Gynhadledd
10 Ceredigion a Meirionnydd
17 Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd
24 Powys
31 Sul yr Eisteddfod

# Cnoi Cil

## gan Gwyndaf Roberts

Yn fy nhyb i, y rhaglen orau ar Radio Cymru yw un Dei Tomos ar nos Sul sy'n cyflwyno sgyrsiau am Gymru, ei phobl a'i diwylliant. I'r sawl nad yw'n gwrando arni, dylid esbonio bod ystod y pynciau a drafodir yn ddi-ben-draw ac yn brawf y gellir trin materion cyfoes a hanesyddol mewn modd ffres a deniadol. Yn ddiweddar bu Dei ar ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol lle gwelodd arddangosfa o Feiblau a llyfrau crefyddol yn dathlu – braidd yn hwyr oherwydd Covid – gyhoeddi Beibl 1620. Roedd y sgwrs a gafodd yno yn pwysleisio pwysigrwydd cyfraniad y cyfrolau i barhad yr iaith Gymraeg hyd at ein dyddiau ni.

Rhwng 1567 a 1620 cyhoeddwyd pedwar llyfr a ddaeth yn rhan o fywyd pob dydd y mwyafrif llethol o Gymry Cymraeg y cyfnod hwnnw a'r canrifoedd dilynol. Deddfwyd yn 1563 bod yr Epistol a'r Efengyl yng ngwasanaeth y Cymun i'w darllen yn Gymraeg. Ychwanegwyd y dylid darllen y Litani, Gweddi'r Arglwydd, y Credo a'r Deg Gorchymyn yn Gymraeg i'r bobl. Daeth hyn yn bosib ar 6 Mai 1567 pan gyhoeddwyd y Llyfr Gweddi Gyffredin gan William Salesbury. Ar ddiwedd y llyfr ceir cyfieithiad Cymraeg o Salmau Dafydd wedi'u gosod yn ôl y drefn y darllenwyd hwy yn yr Eglwys.

Erbyn 7 Hydref 1567 roedd y Testament Newydd Cymraeg cyntaf wedi'i gyhoeddi. William Salesbury oedd y golygydd ac yn gyfrifol am y gwaith trwm o gyfieithu er bod gan yr Esgob Richard Davies a Thomas Huet ran yn y gwaith. Cyfrol i'w darllen yn yr Eglwys oedd y Testament ond roedd gwneud hynny yn gryn gamp oherwydd orgraff od y golygydd. Roedd darlleniadau o'r Hen Destament yn dal yn Saesneg a bu John Penri yn feirniadol iawn gan ddweud bod y Cymry Cymraeg yn cysylltu'r Saesneg annealladwy gyda Lladin yr offeren. "Mau yr offeiriad ar fferen" oedd dywediad yr addolwyr uniaith Gymraeg.

Bu'n rhaid disgwyl tan 1588 cyn y cafwyd Beibl Cymraeg William Morgan. Wrth wneud y gwaith ar y Testament Newydd derbyniodd Morgan dri chwarter o Destament 1567 heb ddim newidiadau. Diwygiodd y gweddill yn ôl y wybodaeth newydd oedd ar gael am y testun Groeg a derbyn arweiniad o fersiwn Saesneg Beibl yr Esgobion.

Yn 1620 diwygiwyd Beibl William Morgan gan y Dr John Davies, Mallwyd,



# Myfyrdod

*gan Ap Llechog*

Rydw i'n ffodus iawn fy mod yn byw mewn lle hyfryd yng nghanol harddwch a chadernid Eryri. Profiad arbennig iawn ydi cael agor llenni'r llofft ar fore heulog digwmwl a medru gweld copa'r Wyddfa yn glir iawn uwchben pob peth arall. Caf edrych i fyny, syllu a rhyfeddu ar yr holl fawredd a gogoniant sydd o'm blaen. Dro arall, wrth agor y llenni does na ddim ond niwl i'w weld ymhob man, ac er craffu a chraffu mae mawredd a gogoniant ddoe wedi diflannu'n llwyr erbyn heddiw. Yr unig gysur sydd gen i ydi fy mod yn gwybod i ba gyfeiriad i edrych, a phan gwyd y niwl unwaith eto fy ddaw y cadernid a'r gogoniant yn ôl i'r amlwg.

Profiad tebyg iawn ydi mynd i'r capel ar y Sul. Ambell waith mae rhywun yn cael cip ar fawredd a gogoniant Duw mewn Oedfa ac yn gallu rhyfeddu yn y gogoniant hwnnw, ond dro arall mae na niwl trwchus yn cuddio'r cyfan oddi wrthym a hynny yn ein rhoi mewn cyflwr o anobaith a digalondid.

Cofiwn mai rhywbeth dros dro yn unig ydi niwl, ond mae mawredd a gogoniant Duw yn barhaol.

ysgolhaig mwyaf ei gyfnod. Dyma'r fersiwn a ddefnyddiwyd gyda mân newidiadau yn yr orgraff tan Feibl Newydd Cymraeg 1988. Gan mai yn y pulpud y defnyddiwyd y Beiblau mawr, gwelwyd angen am fersiwn llai o faint. Daeth y Beibl Bach o'r wasg yn 1630 a'i bris oedd 5 swllt. Am y Beibl hwnnw y dywedodd Rhys Pritchard "Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw."

Mae'r Gymraeg wedi newid llawer dros y canrifoedd ond gellir dweud mai'r cyfrolau a ddaeth o'r wasg yn 1567, 1588 a 1620 sy'n gyfrifol ei bod hi'n fyw heddiw. Mae'n ffaith bod yr adnodau a ddysgwyd gennym dros y blynyddoedd yn dod o Feibl 1620 John Davies. Ei Gymraeg ef sydd ar gof a chadw gennym. Gellir mynd ymhellach a dweud bod llawer iawn o'r idiomau sy'n britho'r Gymraeg yn dod yn uniongyrchol o Feibl 1620. Pa sawl gwaith ydym ni wedi sôn am oedran yr addewid. Alffa ac Omega, ffon fara, byth bythoedd, ar fy myw, heb sylwi mai dyfynnu o'r Beibl yr oeddem. Clywsom yr ymadrodd "dydd y pethau bychain" sawl tro heb wybod efallai mai yn Sechareia 4:10 y ceir y gwreiddiol. Mae gennym bellach sawl ffordd o ddweud bod rhywun wedi marw ond a ydym yn ymwybodol mai Dafydd Frenin oedd y cyntaf i ddweud ei fod yn mynd "i ffordd yr holl ddaear" [1 Brenhinoedd 1:2]

Mae gan bob un ohonom ein beichiau ond fe ddylem fod yn ymwybodol mai dyfynnu Iesu Grist ydym wrth sôn am faen melin am fy ngwddf [Marc 9:42]. Iesu hefyd a'n rhybuddiodd rhag hidlo gwybedyn a llyncu camel. Dyna rybudd da i bawb, a welir yn Mathew 23:24.

Fe glywais Syr Thomas Parry mewn darlith yn dweud y dylai pob sgwennwr gael y Beibl wrth ei benelin er mwyn troi ato mewn argyfwng ieithyddol. Nid yn unig mae Llyfr y Llyfrau yn rhoi arweiniad crefyddol a moesol inni ond mae'n llawlyfr gramadeg hefyd. Mae'n llyfr na allwn fforddio bod hebddo mewn gwirionedd.



# Wrth Fynd Heibio

### *gan William H. Owen*

Gyda pheth dychryn yr wyf yn cyfaddef hyn: rwyf yn cofio argyfwng Ciwba yn 1962. Cofiwch, doeddwn i ddim yn llawn deall y pryder ar y pryd, ond rydwi'n cofio ein hathro addysg grefyddol yn llawn ing yn trafod y pwnc pan oedd yn edrych fel y byddai rhyfel niwclear anorfod rhwng Rwsia ac America. Bu'n rhyddhad enfawr iddo pan dynnodd y ddwy ochr yn ôl ar yr unfed awr ar ddeg.

Ers rhai misoedd bellach nid bygwth a wnaeth y dwyrain ond gweithredu yn Wcráin a mynd i ryfel a hynny'n peri ofn a dychryn i bawb yn y wlad a ninnau yn y gorllewin. Y tro hwn rwyf yn deall yr oblygiadau'n llawer gwell. Yr arth sydd wedi dangos ei dannedd eto tra mae America a chynghrair NATO wedi bod hyd eithaf eu gallu yn osgoi cael eu temtio i ddechrau Trydydd Rhyfel Byd. (Fel hyn mae hi adeg ysgrifennu hyn a gwn y gall pethau newid mor hawdd). Yn wir, bu bygythion Vladimir Putin a'i frath yn ddigon i ysgwyd yr enaid mwyaf gwydn. Mor ddiymadferth yr ydym wrth orfod gwylio canlyniad gweithredoedd ciaidd dyddiol ei fyddinoedd a hyd yn oed Eglwys Uniongred Rwsia yn Moscow yn gefnogol iddo neu o dan ei fawd.

Yr hyn mae peri'r fath erchyllterau a dioddefaint i gyd-ddyn yn ei wneud yw tynnu'r gwaethaf ohonom. Sut y mae gofyn i Gristion droi'r foch arall a charu ei elynion dan y fath amgylchiadau? Gan fod unben o'r fath am ymestyn ei ymerodraeth a chreu'r dinistr mwyaf wrth wneud hynny – i ddyn ac eiddo – sut allwn ni ymateb yn rhesymol i'r fath farbareiddiwch?

Ni allwn ond gweddïo y daw at ei goed rywsut neu'i gilydd, heb i wledydd y gorllewin godi arfau i geisio'i ffrwyno. Mae'r cyfan yn herio ein heddychiaeth a beth a ddylem ei wneud gyda'r fath ddiafol. Gyda'r gwledydd yn addo pob math o gefnogaeth filwrol ac ariannol i helpu Wcráin, a gwneud pob dim i osgoi rhyfela'n uniongyrchol gyda'r arth, a yw Putin ei hun yn dehongli hyn fel cefnogaeth i'w drechu? Mae'n ofnus y gallai daflu ei gylchau ac ymosod ar y gwledydd rheiny sydd wedi hyrwyddo ymgyrch Wcráin yn ei erbyn i geisio rhwystro'i gamau tua'r gorllewin.

Yn gynnar iawn taflodd y gair 'niwclear' i'r pair gan ddweud y gallai ddefnyddio'i arfau mileinig yn erbyn unrhyw un o'r tu allan fyddai'n meiddio ymosod arno. A dyna ni'n syth yng nghanol dadl ynglŷn â gwerth yr arfau dinistriol a'u defnyddioldeb. Os yw ef am eu defnyddio byddai'n rhaid i'r gorllewin wneud wedyn a dyna'r byd yn chwilfriw mân. Ond yr hyn sy'n rhaid ei ofyn yw ai'r ffaith fod arfau o'r fath gan y ddwy ochr sy'n eu hatal rhag eu defnyddio? Ai dyna pam na ddylem ni ddiarfogi wedi gweld y bygythiad sydd yn y dwyrain?

Heb i bawb ddiarfogi mae'n drybeilig o anodd gwybod sut y mae byw hebddynt. Ar hyn o bryd rydym yn bellach nag erioed o'r byd hwnnw.

# Ffoaduriaid

### *gan y Parchedig Arglwydd Roger Roberts*

Wedi oedfa yn un o'n capeli, sefyll wrth y drws i ffarwelio â'r gynulleidfa. Un ferch ddim am ysgwyd llaw ond yn dweud "Rhaid i ni gael gwared o'r ffoaduriaid yma." Yn amlwg doedd y bregeth ddim wedi plesio!

Tro arall, eistedd ar y fainc flaen yn Nhŷ'r Arglwyddi a phleidleisio ar dderbyn 2,000 o ffoaduriaid ifanc o Syria. Aelodau'r Llywodraeth yn cerdded drwy'r lobi i wrthwynebu hynny. Wna i byth anghofio'r diwrnod hwnnw. Ond rhaid oedd dal i chwilio am ryw ffordd i helpu ffoaduriaid. Y noson honno ffurfiwyd côr i ffoaduriaid a'u cefnogwyr sef Côr Dinasyddion y Byd (The Citizens of the World Choir) sydd erbyn heddiw wedi dathlu ei bumed pen-blwydd a chroesawu dros gant o gantorion o 30 o wledydd.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i drin ffoaduriaid yn greulon. Ym mis Awst 2021 cyhoeddwyd bod *Afghan Citizens Resettlement Scheme* i'w sefydlu er mwyn croesawu pobl i'r Deyrnas Unedig, ond ni ddaeth i rym tan Ionawr 2022. Misoedd o argyfwng i bobl Afghanistan – ac rydw i'n dal i holi faint o bobl sydd yn elwa a chefnu ar y Taliban.

Yn awr bwriedir ein gorfodi i dderbyn cynllun i anfon ffoaduriaid o Brydain i Rwanda, 4,000 o filltiroedd i ffwrdd. A chafodd y cynllun mo'i drafod yn Siambr Tŷ'r Cyffredin na Thŷ'r Arglwyddi! Sut fath o benderfyniad ydi hwn – llywodraeth yn osgoi unrhyw gyfrifoldeb am filoedd o blant, merched a dynion?

Cofiwn hefyd y bydd argyfwng mewnfudo yn dod yn fwy o broblem wrth i ni weld canlyniadau tir a fu unwaith yn ffrwythlon yn methu cynhyrchu mwyach oherwydd gwres uchel yn sgil newid hinsawdd. Miliynau yn chwilio am gynhaliaeth. Ni allwn anwybyddu anghenion y teulu dynol. Ein Tad yw Duw. Brodyr a chwiorydd i ni yw pawb o'i blant.



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## *Ebeneser, Dolgellau*

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Bryngwyn a Jane Thomas ar enedigaeth ŵyr bach yn Adelaide, Awstralia. Ganwyd Owen Bryn ar 11 Mawrth, mab i Barry a Meagan Thomas a brawd bach i Ellis. Llongyfarchiadau hefyd i Ron ac Andrea Phillips ar enedigaeth wyres fach. Ganwyd Alice Sophia Joy i'w mab a'u merch-yng-nghyfraith yn Swydd Derby.

**GWELLHAD**
Yn dilyn triniaeth dros rai misoedd, hyfryd yw cael croesawu'r Chwaer Eluned Williams yn ôl atom a'i chael i'n harwain mewn gweddi unwaith eto. Diolch yn fawr iawn iddi am baratoi'r gwasanaethau ar y boreau Sul pan nad oedd yn bosibl iddi ymuno â ni yn yr oedfaon.

**OEDFAON Y PASG**
Ar fore'r Groglith cynhaliwyd Oedfa Weddi Undebol yn Ebeneser o dan arweiniad Menna Lloyd Jones ac Eluned Williams cyn ymuno yn yr oedfa awyr agored undebol yn y Sgwâr am hanner dydd. Gwerthfawrogwyd hyn yn arbennig wedi ysbaid o ddwy flynedd yn sgil Covid. Dathlwyd yn Ebeneser ar fore Sul y Pasg, gan lawenhau o glywed stori`r Atgyfodiad unwaith eto ac ystyried sut rydym yn ei deall heddiw.

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**
Roedd y Bore Coffi a gynhaliwyd ar 25 Ebrill yng Ngwesty'r Llong, Dolgellau yn llwyddiannus iawn a gwnaed elw o £400 tuag at Gymorth Cristnogol. Roedd amryw o aelodau Ebeneser ynghlwm â'r trefniadau a diolch yn fawr i bawb am yr holl gyfraniadau, am eich cefnogaeth ac i'r rhai fu'n helpu ar y diwrnod.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON**
Yn ystod Mawrth ac Ebrill cawsom oedfaon bendithiol dan ofal Arwel Roberts, Rhuddlan a Maryl Rees, Gorsedd. Ar y Suliau pan nad oedd pregethwr ar gael cawsom oedfaon bendithiol dan ofal aelodau'r capel – Bethan Roberts, Heulwen Ellis, Hywel Evans, Elfed Evans, Gwyn Williams a Medwyn Jones. Blaenor mis Mawrth oedd Heulwen Ellis gyda mis Ebrill dan ofal Elfed Evans. Diolch i Vera Savage am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r aelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.

**CYD-DDATHLU**
Dydd Sul 6ed o Fawrth cynhaliwyd oedfa undebol Gŵyl Dewi tref Dinbych ym Mhendref. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau y Capel Mawr, Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws, Lôn Swan, Pendref ac Eglwysi'r Santes Fair a'r Eglwys Wen. Cafwyd anerchiad amserol iawn gan yr Hybarch Bernard Thomas, Trefnant, a gwnaed casgliad arbennig ar gyfer apêl Wcráin. Diolch am y cyfraniadau hael a ddaeth i gyfanswm o £615.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Dydd Gwener Mawrth 4ydd cynhaliwyd cyfarfod Dydd Gweddi Byd Eang yng Nghapel Lôn Swan. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth, ar ran Pendref, gan Vera Savage.

**LLONGYFARCHIADAU**
Ganed Celt Llwyd Jones ar y 19eg o Ebrill, mab i Elliw a Caeron Jones ac ŵyr cyntaf i Siân a Cledwyn Jones, gor-ŵyr i'r diweddar Barchedig Cledwyn Parry. Llongyfarchiadau i Elliw a Caeron a hefyd i taid a nain, Siân a Cledwyn.

**DIOLCH AM WAITH SYNOD CYMRU**
Mae croeso i bawb ddod i'r oedfa a gynhelir ym Mhendref am 2 o'r gloch ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 9fed, i ddathlu a diolch am fywyd a gwaith Synod Cymru. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Ganon Aled Edwards.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

## *Ardal Bathafarn*

**ADUNIAD**
Ar fore hyfryd o wanwyn, cyfarfu rhai o aelodau'r teuluoedd a fu'n rhan o gynulleidfa hen gapel Wesle Llanelidan. Braf iawn oedd cael cymdeithasu â'n gilydd a rhannu'r atgofion rydym yn eu trysori. Hyfryd oedd cael cwmni Rhys, mab John a Glenys Hughes, sydd wedi prynu'r hen gapel a'i addasu'n gartref iddo ef a'i deulu. Cawsom fwynhau golygfeydd godidog o gwmpas Llanbenwch, wrth eistedd yn y lle bwyta tu allan sydd â tho uwch ei ben. Gobeithiwn gynnal aduniad eto y flwyddyn nesaf. Braf oedd cael cwmni amryw o gyfeillion o ardal Llanelidan.

**MERCHED METHODISTAIDD YNG NGWLEDYDD PRYDAIN**
Gobeithiwn yn fawr y bydd modd cynnal y cyfarfod yng nghwmni Angharad Tomos ym mis Hydref, wedi'r siomiant a gawsom ym mis Ebrill pan oedd achosion Covid yn rhy uchel i allu ei gynnal.

**OEDFAON**
Diolch i Elizabeth, Hedd Bleddyn a'r Parchedig Jennie Hurd am arwain oedfaon, a'r Cymun Bendigaid hefyd yn cael ei weinyddu gan Jennie ac Elizabeth.

**GWASANAETH SUL Y BLODAU**
Roedd yn hyfryd cael cynnal y gwasanaeth yma eleni, am y tro cyntaf ers tair blynedd. Teimladwy oedd i Gwyneth a Ceinwen gyflwyno blodau ar yr allor. Eu tad y diweddar R.H. Williams a sefydlodd y gwasanaeth er cof am ei fab Henry Lloyd a fu farw yn blentyn bach yn y 1940au, a'r traddodiad wedi parhau. Diolch i Edwina am addurno'r capel gyda gosodiad blodau hyfryd, i Rhodri am lywyddu ac i Rhian am gyfeilio. Cafwyd croeso a gweddi gan Elizabeth, a distawrwydd i feddwl am y sefyllfa druenus yn Wcráin. Cymerwyd rhannau defosiynol hefyd gan Meta, Marian, Edwina a Gwyneth. Cafwyd anerchiad gan y Parchedig Jennie Hurd a gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ddilyn rhagofalon diogelwch. Braf iawn oedd croesawu amryw o ffrindiau oedd wedi ymuno â ni ar brynhawn mor fendithiol.

**BABAN NEWYDD**
Llongyfarchiadau calonnog i Rhodri a Rhian ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach i Sioned ac Ynyr, sef Nanw. Bendith fo arnoch fel teulu.

**COFION**
Anfonwn ein cofion a dymuniadau gorau am wellhad buan at Hywel ac Enid Edwards, Glyn a Gladwen Jones, Iolo Evans a Dilys Jones. Pob dymuniad da hefyd i Olwen Griffiths, Lorna Wynne, Gwyn Atkinson a Margaret Hughes. Gobeithio y bydd y gwanwyn yn rhoi hwb i chi i gyd.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Bethel, Prestatyn*











**SUL Y MAMAU**
Cawsom wasanaeth teulu arbennig i ddathlu Sul y Mamau. Thema'r gwasanaeth oedd 'Anrhydedda dy dad a'th fam' a chafodd y plant hwyl yn edrych ar luniau ohonynt eu hunain a'u mamau a'u neiniau pan oeddent yn fabanod a dehongli pwy oedd pwy. Y brif neges oedd ein bod i gyd yn unigryw ac arbennig a bod Duw yn ein caru yn ddi ben draw. Gallwn anrhydeddu ein tad a'n mam drwy fod yn ufudd, yn ddiolchgar ac yn gymwynasgar. Wedi i'r plant fynd i'r Ysgol Sul, treuliwyd amser yn trafod rhai o famau'r Beibl a beth y gallwn ninnau ei ddysgu ganddynt.

**SUL Y PASG**
Yn ôl ein harfer, y Groes o Flodau oedd canolbwynt ein gwasanaeth Pasg. Rhoddir cyfle i bawb ddod ymlaen i addurno croesbren gyda blodau'r gwanwyn fel arwydd o atgyfodiad Crist a bywyd newydd. Cafodd y plant anerchiad ar draddodiadau Cristnogol y Pasg ac yn dilyn yr oedfa mwynhawyd coffi a byniau'r grog a chyfle i gael sgwrs. Gosodwyd y groes y tu allan wrth ddrws y capel er mwyn i bawb allu ei gweld wrth gerdded ar hyd y Stryd Fawr.

**OEDFA DEULU**
Mwynhawyd Oedfa Deulu yn dilyn y Pasg, o dan ofal Mrs Delyth Davies o Rwydwaith Dysgu Cymru. Diolch iddi am baratoi amrywiaeth o weithgareddau i'r plant yn ystod yr oedfa. Cawsom fideo, caneuon, llawer o holi ac ateb a chyfle i bump o'r plant bach 'helpu' Delyth i ddod o hyd i ddisgiau bach gyda lluniau i gynrychioli stori'r Pasg. Wedi chwilio am y lluniau ar hyd y Capel, cafodd y plant hŷn gyfle i roi'r lluniau yn y drefn gywir i adrodd y stori.

**ORGANYDD NEWYDD**
Croeso i Mrs Ceri Thomas a dderbyniwyd yn aelod ym mis Ionawr ac sydd yn awr yn un o'n horganyddion. Diolch yn fawr iddi am ei gwasanaeth.

**SYNOD OLAF Y DALAITH BRESENNOL**
Cynhaliwyd y Synod olaf ym Methel ddiwedd Ebrill ac er bod llawer o bobl yn teimlo'n drist mae'n rhaid i ni edrych ar uno gyda Wales Synod fel cyfle newydd byrlymus a derbyn ewyllys Duw gyda gras a diolchgarwch. Yn dilyn y cyfarfod cafwyd cinio wedi ei baratoi gan rai o chwiorydd Bethel. Diolchodd Mrs Maryl Rees i swyddogion Bethel am y croeso ac i'r chwiorydd am y lluniaeth. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch ac i gofio am ein holl chwiorydd yn y gorffennol – ein mamau a'n neiniau – a fu mor hael ac mor weithgar yn paratoi bwyd ar gyfer y Synod.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion annwyl at ein holl aelodau sydd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd salwch. Mae Mrs Beryl Hughes wedi cael triniaeth ar ei llygaid yn yr ysbyty ond yn gwella erbyn hyn a Mrs Rowenna Hughes wedi ymgartrefu mewn cartref gofal. Mae Mr a Mrs Elwyn Roberts wedi treulio amser yn yr ysbyty a Mrs Ceinwen Roberts wedi dychwelyd adref erbyn hyn. Dymunwn wellhad buan i chwi i gyd.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Ebeneser, Treuddyn*

**GWASANAETHAU**
Rydym yn dal i gynnal gwasanaethau rheolaidd yn y capel ac rydym yn ddiolchgar iawn i'n gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans a'r Parchedig Marc Morgan am ddod atom bob mis. Hefyd, cawsom gyfle i gael gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Diolch iddynt i gyd am baratoi ar ein cyfer a'u parodrwydd i ddod atom bob amser.

Braf yw cael gweld plant yn yr oedfaon unwaith eto. Mae Lily, Megan a Gwenan, tair chwaer fach, yn fwy na hapus i gario allan dyletswyddau hel y casgliad yn ein hoedfaon. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt ac am eu brwdfrydedd.

Cofiwn am bawb sy'n methu â mynychu'r capel oherwydd salwch ac anhwylder. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan atynt i gyd.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

**DADL FRYS AR DDYFODOL ADDOLDAI**

Yn ystod Hydref a Tachwedd y llynedd rhoddwyd cryn sylw i addoldai, yn sgil gwaith dwy gymdeithas sy'n ymwneud â'r maes hwn. Y ddwy gymdeithas dan sylw yw Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi a Chymdeithas Cyfeillion Eglwysi Digyfaill. Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth am ddadl genedlaethol frys ynglŷn â dyfodol addoldai o bob enwad. Tynnwyd sylw at y ffaith fod miloedd o addoldai wedi cau ym Mhrydain yn y degawd diwethaf a channoedd mwy wedi'u clustnodi i'w dymchwel neu eu cau. Yn y deng mlynedd diwethaf mae nifer yr addoldai a ddefnyddir at ddibenion addoli wedi lleihau o 42,000 i 39,800. At hynny mae nifer sylweddol o addoldai ar yr hyn a elwir yn "gofrestr risg", lle na ellir casglu cronfeydd ariannol digonol i wneud gwaith atgyweirio angenrheidiol, na'u haddasu chwaith i wasanaethu eu cymunedau'n well.

Penderfynodd Ymddiriedaeth Genedlaethol yr Eglwysi lansio ymgyrch i ddwyn sylw at fuddioldeb cymunedol ac economaidd yr adeiladau hyn, gan annog pobl i fynegi barn ynglŷn â'u dyfodol. Hoffaf yn fawr enw adroddiad yr Ymddiriedolaeth sef "Annedd er Daioni" (The House of Good). Nodir gwerth ariannol yr adeiladau i gymdeithas. Yn ôl Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth, mae adeiladau crefyddol yn ased cenedlaethol unigryw; camgymeriad enfawr fyddai gadael iddynt ddirywio yn y gwynt a'r glaw. Maent yn darparu oddeutu £55 biliwn o werth economaidd a chymdeithasol i Brydain bob blwyddyn ar ôl newid eu defnydd. Dyma frawddeg ddiddorol o'r adroddiad, sydd yn Saesneg: "So many churches are in the last chance saloon – better that they should become holy altars with saloons attached than disappear for ever!" Mae llawer iawn o addoldai wrth gwrs wedi cael eu haddasu mewn gwahanol ffyrdd wedi iddynt gau.

**CYFEILLION YR EGLWYSI DIGYFAILL**

Corff annibynnol yw'r Cyfeillion, elusen anenwadol a sefydlwyd gan grŵp o ffrindiau yn 1957 er mwyn achub addoldai hardd nad oedd galw amdanynt mwyach rhag eu dymchwel, eu gadael i ddadfeilio neu eu troi i ddefnydd na fuasai'n gydnaws â'r adeilad. Maent bellach yn berchen ar 58 ohonynt. Rhan o'u credo yw mai'r adeiladau hyn yw ein pensaernïaeth fwyaf godidog ac y dylent oroesi er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Proffwyda Cymdeithas Cyfeillion yr Eglwysi Digyfaill y bydd oddeutu 368 o eglwysi yn cau yn y pum mlynedd nesaf. Dywed y Gymdeithas fod y rhain yn adeiladau cyhoeddus ac felly dylai llais pawb, o ba enwad neu gefndir bynnag, gael ei glywed a'i ystyried yn llawn. At hynny fe ddylai dyfodol addoldai gael ei asesu gan bobl sydd â'r arbenigedd priodol, a rhaid cofio fod caniatâd addoldy cofrestredig yn cynnwys yr adeilad yn unig. Gall yr hyn sydd y

# Carreg Filltir yn Ein Hanes: Synod Ebrill 2022

Roedd croeso ardderchog yn disgwyl aelodau Synod y Cynrychiolwyr ym Mhrestatyn ar 23 Ebrill. Diolch yn fawr iawn i gyfeillion Bethel am y paratoadau.

Bydd Synod Cymru yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn gyfundebol bresennol ac felly dyma ein Synod olaf fel Talaith Gymraeg. Cofiwn gyda diolchgarwch am waith Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd hyd yma; y Gymraeg, wrth reswm, fu prif gyfrwng y gwaith yng Nghymru o 1800 ymlaen, ac yn wir rhwng 1903 a 1973 bu gennym dair Talaith Gymraeg. O'r flwyddyn gyfundebol nesaf ymlaen, un Gylchdaith Gymraeg fydd gennym, yn rhan o'r Dalaith ddwyieithog newydd a ddaw i fodolaeth wrth i Synod Cymru a Wales Synod uno.

Wrth annerch y Synod ym Mhrestatyn, atgoffaodd y Parchedig Jennie Hurd bawb am y camau a arweiniodd at yr uno arfaethedig. Pan benodwyd hi'n Gadeirydd, rhan o'i thasg oedd ein helpu i ystyried ein cenhadaeth fel Talaith at y dyfodol. Fe ofynnwyd iddi gan amryw, pa weledigaeth oedd ganddi ar gyfer Synod Cymru; ond fel y dywedodd bryd hynny ac y mae'n dweud o hyd, gweledigaeth Duw ar ein cyfer sydd yn bwysig. Yn dilyn llawer o waith adolygu, trafod, meddwl a gweddïo, daeth y cynllun presennol i fodolaeth. Diolchwyd i bawb a fu'n rhan o'r daith hon – taith anodd ar adegau.



Synod Talaith y Gogledd, Bangor 1901



tu mewn, sy'n rhan o'n hetifeddiaeth werthfawr, gael ei golli am byth.

### EGLWYS PENLLECH

Mae gan Benrhyn Llŷn gyfoeth o safleoedd crefyddol hynafol – yn wir mae'r penrhyn wedi bod yn lle sanctaidd ac yn seintwar ers dyddiau cynharaf Cristnogaeth ym Mhrydain. Dechrau'r daith ar hyd Llŷn yw Eglwys Sant Beuno yng Nghlynnog Fawr ac ers dyddiau'r pererinion canoloesol bu'n fan cychwyn i'r daith i Ynys Enlli. Braint i mi oedd gofalu amdani am gyfnod o dri deg pedwar o flynyddoedd a chyfarfod nifer fawr o bererinion o bob gwlad ac iaith. Ond am Eglwys y Santes Fair ym Mhenllech, Llŷn, sef un o'r addoldai dan ofal Cymdeithas Cyfeillion Eglwysi Digyfaill, yr hoffwn sôn yma. Mae dwy ffordd yn mynd o blwyf Tudweiliog i blwyf Llangwnnadl. Un ohonynt yw'r ffordd fawr adnabyddus o Bwllheli i Aberdaron sy'n mynd gyda godre Mynydd Cefnamwlch a'r llall ar y gwastadedd yn agos i'r môr. Mae llwybr yr arfordir yn mynd ymlaen i gyfeiriad Traeth Penllech, Porth Colmon a Phorth Fesyg. Gellir troi o'r llwybr mewn llawer lle os dymunir ac mae un ffordd yn arwain i blwyf Penllech ac i Langwnnadl. Bron â bod ym muarth ffermdy Plas ym Mhenllech, saif Eglwys Penllech. Ers dod dan ofal Cyfeillion Eglwysi Digyfaill yn 2009 gwnaethpwyd peth gwaith atgyweirio arni. Mae'n perthyn i'r Oesoedd Canol ond cafodd ei hail-adeiladu a'i dodrefnu gan ŵr o'r enw Samuel Jones yn 1840 a cherfiwyd y flwyddyn ar un o goed y to. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg defnyddiwyd yr addoldy fel ysgol – yn wir roedd yn un o'r ysgolion gramadeg cynharaf yng Nghymru. Un a fynychodd yr ysgol oedd Henry Rowlands. Aeth ef i Brifysgol Rhydychen a daeth yn Esgob Bangor ac ni anghofiodd am Eglwys ei febyd drwy ei fywyd.

Meddai un o swyddogion Cyfeillion Eglwysi Digyfaill am Eglwys Penllech: "Yn gyffredinol mae naws y lle yn cyfleu ymwybyddiaeth o genedlaethau o dras amaethyddol yn cyflwyno rhodd arbennig ond diymhongar i'w Duw...ac mae'r cyfan yn dal i fod yno". Aeth criw ohonom i addoli yno tra ar daith yn Llŷn rai blynyddoedd yn ôl a derbyn bendith o fewn ei muriau y bore hwnnw. Wrth draddodi myfyrdod darllenais linellau o waith y Prifardd Alan Llwyd a fagwyd ar fferm Nant-y-big yng Nghilan, yn ymyl traeth Porth Ceiriad yn Llŷn. Ymweld ag Eglwys arall wnaeth y bardd ond mae'r geiriau mor addas i Eglwys Penllech ac addoldai cyffelyb –

"yn ymglywed â dirgelwch Duw'n
yr awyrgylch dawel...Yr oedd yno
ddistawrwydd, distawrwydd fel
sancteiddrwydd Duw".

**Sefydlu Synod Cymru Wales**

Ar 9 Ebrill eleni roedd y cynrychiolwyr yng nghyfarfod Wales Synod wedi pleidleisio'n gryf o blaid mabwysiadu'r dogfennau angenrheidiol i sefydlu Synod Cymru Wales (Wales Synod Cymru, yn Saesneg). Dyma'r cynnig y gofynnwyd i Synod Cymru hithau ei dderbyn – ac a basiwyd yn unfrydol gan y cynrychiolwyr:

Mae cyfarfod Synod Cymru ar 23 Ebrill a chyfarfod Wales Synod ar 9 Ebrill, yn rhoddi diolch am addoliad, cenhadaeth a gweinidogaeth y ddwy synod ledled Cymru ers iddynt gael eu sefydlu. Gan ymddiried yn arweiniad Duw ar gyfer y dyfodol, derbynnir a mabwysiadir y dogfennau a ganlyn:

i) *Cyfansoddiad Synod Cymru Wales*
ii) *Polisi Iaith Synod Cymru Wales*
iii) *Strwythur ac Aelodaeth Pwyllgorau Synod Cymru Wales*

Gan edrych ymlaen yn obeithiol at sefydlu ***Synod Cymru Wales*** a chan ymrwymo i geisio arweiniad yr Ysbryd Glân wrth inni barhau i addoli, cenhadu a gweinidogaethu ledled Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r polisi iaith i'w adolygu bob tair blynedd. *Os hoffai unrhyw un o ddarllenwyr y Gwyliedydd weld y tair dogfen uchod yn eu cyfanrwydd, neu dderbyn unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch ag un o swyddogion y Synod neu â golygyddion y Gwyliedydd.*

Bydd y cynnig yn mynd gerbron y Gynhadledd yr haf hwn er mwyn dilyn y drefn ar gyfer sefydlu'r dalaith newydd. O 1 Medi 2023 ymlaen, bydd y Parchedig Andrew Charlesworth yn ymuno â'r Synod fel olynydd i'r Parchedig Stephen Wigley. Mae ei benodiad am chwe blynedd a bydd ef a Jennie yn cydweithio fel dau Gadeirydd. Nododd Jennie fod brwdfrydedd Andrew dros gydweithio yn amlwg iawn a'i bod hithau'n edrych ymlaen.

**Ffydd a gobaith**

Cafwyd gair hefyd am waith Cylchdaith Cymru, y bydd y Parchedig Ian Morris yn arolygydd arni o 1 Medi eleni ymlaen. Da iawn oedd gallu dweud bod pawb wedi ymateb i heriau Covid-19 mewn ffydd a gobaith, hyd eithaf ein gallu, er i'r amgylchiadau fod yn drech na rhai capeli a bu'n rhaid iddynt wneud y penderfyniad anodd i ddod â'r achos i ben. Diolchwn i Dduw am eu tystiolaeth a'u gweinidogaeth dros y blynyddoedd.

Rhoddwyd sylw yn ogystal i sawl maes arall, gan gynnwys gwaith ecwmenaidd. Bydd y Parchedig Ian Morris, sydd ag ugain mlynedd o brofiad yn y maes, yn parhau i fod yn swyddog ecwmenaidd o dan y drefn newydd. Crybwyllwyd y *Gwyliedydd*, a fydd am y tro yn mynd yn gylchgrawn i Gylchdaith Cymru yn unig, er nad yw'n amhosibl y bydd dan nawdd y dalaith newydd, efallai, maes o law. Soniwyd am y gost uchel o gynhyrchu'r papur hwn a bod y cyfraniadau a dderbynnir gan unigolion a chapeli/Ardaloedd yn werthfawr iawn. Cafwyd adroddiad i gnoi cil arno gan Bet Holmes, ynglŷn â'r Cyngor Methodistaidd. Mae'r Cyngor yn credu y dylid rhannu gweinidogaeth yn ôl yr angen yn hytrach nag yn ôl pa gylchdeithiau all ariannu gweinidog. Pwy a ŵyr na all hyn fod yn newydd da i ni yng Nghylchdaith Cymru.

Gan na fydd cynifer o bwyllgorau o dan y drefn newydd, bydd yn ysgafnhau rhywfaint ar y baich o'r safbwynt hwnnw. Bydd rhai meysydd a fu o dan ofal y Synod yn trosglwyddo i ofal y Gylchdaith fel y byddwn yn parhau i gefnogi gwaith Gweithredu dros Blant, MHA ac yn y blaen, sydd yn rhan mor bwysig o'n tystiolaeth.

*Ff.R.*

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## *Salem, Rhyd y Foel*

**SUL Y BLODAU**
Ar Sul y Blodau sef 10 Ebrill cafwyd oedfa deuluol o dan ofal Catherine Blythin. Cymerwyd rhan gan Margaret a Wyn Roberts, Rowena, Cadi a Gwil Pegg, Ruth a Beth Roberts ac Angharad a Mali Owen. Daeth y plant â blodau i'w gosod ar fwrdd y Cymun. Diolchodd Ieuan i bawb am eu parodrwydd i gymryd rhan yn y gwasanaeth bendithiol iawn. Braf iawn oedd cael cwmni Tirion gyda'i nain.




**PROFEDIGAETH**
Ar Fawrth 19eg fe'n hysgytiwyd gan y newyddion am farwolaeth frawychus o sydyn Tudur Wyn Jones, Cefn Fran, Dolwen. Colled enfawr i'w briod Mona a'r teulu, i ni yn Salem ac i'r gymuned gyfan. Roedd Tudur a'r teulu yn aelodau ffyddlon yng nghapel Horeb, Betws yn Rhos ond ers y cyfnod clo wedi cyd addoli â ni yn Salem yn selog. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am fywyd Tudur yng nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos o dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Cadi Mai Pegg ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth unawd chwythbrennau blwyddyn 7, 8 a 9 a dymuniadau gorau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych. Mae Cadi yn ddisgybl yn Ysgol y Creuddyn. Byddwn bob amser wrth ein boddau yn gwrando arni yn canu'r ffliwt yn ein gwasanaethau teuluol.

**LLONGYFARCHIADAU**
Ar benwythnos braf 25-27 Mawrth llwyddodd Steffan Arfon Roberts a rhai o'i gyd ddisgyblion o Ysgol y Creuddyn i gwblhau alldaith o amgylch Sir Fôn ar gyfer cynllun Dug Caeredin Lefel Arian. Tipyn o gamp!

**COFION**
Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at deulu Ystrad a Than yr Ogof ym marwolaeth perthynas iddynt sef William Nefydd Owen.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**CYDYMDEIMLO**
Rydym fel Eglwys yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â Miss Barbara Thomas sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith yn Preston ac â Mrs Iris Jones sydd wedi colli cyfnither ym Mangor. Meddwl amdanoch eich dwy.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Mia Sara, merch Bethan ac Elwyn Williams sydd wedi derbyn Gwobr Aur Dug Caeredin ym Mhalas Buckingham. Da iawn ti.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

## *Eglwys Unedig Colwyn*

**CYD-ADDOLI**
Ar y Sul cyntaf ym mis Mai cynhaliwyd gwasanaeth yn Horeb unwaith yn rhagor, wedi inni dreulio mis Ebrill gyda'n cyfeillion yn Ebeneser Bae Colwyn. Mae'r cynllun o ddod at ein gilydd bob Sul, mis yn Ebeneser ac yna mis yn Horeb, yn mynd yn dda. Diolch i bawb am eu presenoldeb a'u cyfeillgarwch.

**GWELLHAD**
Braf oedd cael Dilwyn, Arfon a Ken yn ôl gyda ni wedi i'r tri yn anffodus ddioddef o Covid yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion annwyl at bob aelod sydd heb fod mewn iechyd da.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## *Shiloh, Tregarth*

**DRWS AGORED**
Braf iawn yw cyhoeddi fod y drws ar agor bob bore Gwener yn Shiloh. Rydym yn croesawu pawb a hoffai droi i mewn am baned, sgwrs a chwmni.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â theulu un o'n haelodau sef Mrs Gwenda Hughes, Seion, Llanddeiniolen, a fu farw ddeg wythnos yn unig ar ôl colli ei phriod sef y diweddar Ronnie Hughes. Cydymdeimlwn â'r meibion Bryn, Dilwyn ac Euron, a'r teulu cyfan. Bu angladd Gwenda yn Shiloh ar 12 Mai.

**ADDOLI YN SHILOH**
Diolch o galon i'r rhai fu'n gwasanaethu yn Shiloh yn ystod Mawrth ac Ebrill, sef y Parchedigion Richard Gillion, Olaf Davies, Philip Barnett, Peter Cutts, Eric Jones a Geraint Roberts. Mor braf yw cael ymuno yn yr oedfaon ac addoli gyda ffrindiau yn Shiloh. Diolch arbennig i Wyn, ein horganydd, am ei gyfraniad hyfryd yn y gwasanaethau.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Diolch i Ffion a Gwenda fu'n cynrychioli'r capel yn y gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd yn yng nghapel Jerusalem, Bethesda ar 11 Mawrth.

## Bethel, Rhiwbeina

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth un o'n haelodau ffyddlon a hoffus, Pam Davies. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr a chydymdeimlwn yn ddwys â'i mab a'i chwaer a'r teulu oll.

Rydym hefyd yn estyn ein cydymdeimlad at Siân Francis a'r teulu wedi iddi golli ei thad yn ddiweddar. Bu farw'n dawel yn ei gartref yn Aberpennar.

**OEDFAON**
Yn y misoedd diwethaf cawsom y fraint o groesawu i'r pulpud Mr Marc John Williams, y Parchedigion R. Alun Evans a Robert Owen Griffiths a Mr Gwyndaf Roberts. Diolch iddynt a hefyd i'r aelodau sydd wedi cymryd rhan. Roedd y gwasanaeth Cymun ar Sul y Blodau yng ngofal ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan, yna ar Sul y Pasg cawsom gyfle i ymuno â'r aelodau yn Salem, Treganna ac roedd y gwasanaeth hwn hefyd ar gael ar Zoom.

**CYMDEITHAS AC AELWYD**
Ar Fawrth 21 cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina noson yng nghwmni'r delynores dalentog Bethan Semmens a chafwyd perfformiad gwych ganddi. Cynhaliwyd noson hefyd ym Methel ar 11 Ebrill pan fu Non Rhys yn ein swyno gyda'i brwdfrydedd dros ddefnyddio planhigion gwyllt a blodau'r ardd ar gyfer eu bwyta. Mae Non yn nith i un o'n haelodau ffyddlon, Carol O'Donnell. Ar 18 Mai hefyd cynhaliodd aelodau Aelwyd Hamdden eu cyfarfod cyntaf ym Methel.

**CERDDED NODDEDIG**
Yn ystod y cyfnod hwn mae ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan yn mynd ar deithiau cerdded noddedig er budd Cymorth Cristnogol. Rydym fel capel yn ei gefnogi yn ei ymdrech i gyflawni 70 km cyn diwedd y gwanwyn.

**BEDYDD**
Ar 27 Mawrth cynhaliwyd bedydd Alffi Jac, mab Angharad a Gavin Taylor ac ŵyr Carol a Tony Davies. Dymunwn bob llawenydd iddynt.

**AELODAU NEWYDD**
Yn ystod y misoedd diwethaf rydym fel capel wedi cael y pleser o groesawu nifer o aelodau newydd i'n plith. Mae croeso cynnes i bawb i fynychu ein gwasanaethau bore Sul sy'n dechrau am 10.15.
**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

## Saron, Bethel, Arfon

**PROFEDIGAETH**
Ychydig cyn i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg cawsom y newydd trist fod Mrs Beryl Parry wedi marw yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwn â'r teulu yn fawr yn eu profedigaeth a bydd gair pellach yn y rhifyn nesaf i gofio am un a fu'n ffyddlon iawn drwy ei hoes.

**OEDFAON SARON**
Buom yn gynulleidfa fechan iawn am gyfnod oherwydd gwaeledd ymysg yr aelodau. Mae'n arbennig o dda bob amser gweld y pedwar plentyn sydd yn dod i'r capel yn ffyddlon gyda Delyth eu nain. Ar fyr rybudd yn ddiweddar, oherwydd salwch un o'n pregethwyr, fe ddaeth Mrs Rhian Evans-Hill (pregethwr lleol ar brawf) i arwain oedfa ac roedd yn fendithiol iawn.

**EGLWYS UNEDIG**
Rydym fel Eglwys yn trafod y posibilrwydd o uno gyda chapeli eraill lleol yr Eglwys Fethodistaidd sef Pisgah, Rhiwlas a Shiloh, Tregarth, gyda'r bwriad o greu cyd-eglwys. Bydd y tair eglwys yn trafod y mater ymhellach ddiwedd mis Mai.
**GOHEBYDD .** RJ



**ER COF ANNWYL**
Trist yw colli un y gwnaethom fwynhau ei chwmni yn fawr wrth gael paned ar fore Gwener, sef y diweddar Beti Morris, Ffordd Tanrhiw ac yn wreiddiol o Sling. Bu farw ar 9 Ebrill a hithau'n 92 mlwydd oed. Bu Beti'n aelod ffyddlon ar hyd y blynyddoedd yng nghapel MC Penygroes yn y pentref nes caeodd y drysau yn 2008/9 ac wedi hynny yng nghapel Jerusalem, Bethesda. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at y teulu yn eu colled fawr. Byddwn yn cofio am Bet am hir iawn.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES



## Tabernacl, Llanfyllin

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymuniadau gorau i'r Parchedig Gwyndaf Richards a'i wraig Eirlys ar ddod yn daid a nain yn ddiweddar. Ganed merch fach i Anwen a'i gŵr yn ardal Castell Newydd Emlyn. Pob bendith ar y teulu bach.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mr Geraint Jones, Hafod Unnos a fu farw yn ddiweddar. Ef oedd yr hynaf o aelodau'r Tabernacl. Roedd yn ffermwr taclus a diwyd. Meddyliwn am Iolo, Gwenan a Nia a'u teuluoedd yn eu colled.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Trwy garedigrwydd Keith a Decia Blacker, cafodd y cyhoedd gyfle i fynd am dro drwy Goed Caeau Gwynedd a mwynhau paned a chacen yn y sied. Llwyddwyd i godi £350 tuag at yr elusen.

**SUL Y PASG**
Roedd y gwasanaeth ar Sul y Pasg o dan ofal Mr Tom Ellis. Cawsom gyfranogi o'r Cymun am y tro cyntaf ers dyfodiad y pandemig.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## Ebeneser, Eglwysbach

**TAITH GERDDED**
Ar fore braf o wanwyn, 29ain o Fawrth, cwblheais i, Charles Crapper, daith gerdded noddedig 12 milltir ar hyd yr arfordir o Landudno i Benmaenmawr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i Owie Morris o Grŵp Cristnogol Canser Ardal Conwy am y trefniadau. Roedd y cyfanswm a godwyd i gronfa Gofal Canser Macmillan yn £350.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

# Arferion yn newid er gwell?

## *gan Glyn Tomos*

Cafwyd digwyddiad arwyddocaol iawn yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Yn awr am y tro cyntaf mae'n bosib defnyddio cerdyn i dalu am fara a chacennau ym Mecws Carltons, ac ymddengys bod y staff wedi addasu yn ddidrafferth i'r drefn newydd.

Sefydlwyd y busnes yn 1922 (can mlynedd i eleni) a dyma'r unig siop fara annibynnol yn y dref erbyn hyn. Y tebyg yw mai dyma'r siop olaf yng Nghaernarfon i droi at dechnoleg newydd o'r fath. Bellach does dim angen meddwl am gael arian parod cyn mynd i'r siop, a bydd hyn wrth fodd nifer o gwsmeriaid ac ymwelwyr sydd wedi cael eu dal heb arian yn eu poced. Bu cael arian o beiriant twll yn y wal banc Barclays dros ffordd i'r siop yn achubiaeth sawl tro, ond bellach mae'r twll yn y wal a'r banc wedi cau.


Yn gynyddol erbyn hyn mae nifer fawr ohonom yn defnyddio cerdyn i dalu, yn hytrach nag arian parod. Ychydig iawn o arian, os o gwbl mae rhywun yn ei gadw yn ei boced bellach gan fod cerdyn mor hawdd i'w ddefnyddio beth bynnag yw pris y nwyddau. O ganlyniad rydym yn prysur golli sgiliau trin arian, a'r tebyg yw mai arfer yn perthyn i'r gorffennol fydd hyn yn fuan iawn.

Ymddengys mai arfer arall sydd yn prysur ddiflannu yw mynd o ddrws i ddrws er mwyn codi arian at achosion da, yn lleol a chenedlaethol. I nifer ohonom sydd wedi bod yn casglu arian ar gyfer Cymorth Cristnogol neu achosion teilwng eraill, mae casglu fel hyn wedi mynd yn anoddach dros y blynyddoedd diwethaf. Un peth oedd mynd o gwmpas tai yn dosbarthu'r amlenni, profiad cwbl wahanol oedd mynd ati i'w casglu! Doedd dim problem mewn rhai tai, wrth gwrs gan y byddai'r amlen a'r arian ynddo wedi ei hen gadw wrth ymyl y drws ffrynt yn barod ar gyfer ei gasglu. Profiad cwbl wahanol oedd hi wrth gnocio ar ddrysau eraill. Cant a mil o resymau am fethu cyfrannu oedd yn cyfarch rhywun ar y stepan drws wrth ofyn am gael dychwelyd yr amlen. 'Dwi wedi colli'r amlen'; 'Dwi ddim yn cofio lle ydan i wedi'i rhoi hi'; 'Sori does gen i ddim arian mân'; 'Fedrwch chi ddod yn ôl eto – dan ni'n brysur ar hyn o bryd'. Neu hyd yn oed rhai ddim yn agor y drws.

Arfer arall sydd wedi dod i ben yn barod, neu sydd yn debygol o ddiflannu dros y blynyddoedd nesaf yw amlenni cyfrannu pob Sul. Mae nifer o enwadau erbyn hyn yn annog eu haelodau i dalu debyd uniongyrchol misol fel bod yr arian yn mynd yn syth o'r cyfrif banc yn ddi-drafferth i gyfrif ariannol y capel neu eglwys. Hefyd mae sawl addoldy wedi dod â'r arfer o gyhoeddi Adroddiad Ariannol yn rhestru cyfraniad aelodau unigol i ben. I nifer mae hyn yn newydd da oherwydd roedd yr arfer wedi mynd yn fwy i'w wneud am bwy oedd wedi cyfrannu'r swm mwyaf neu'r swm lleiaf!

Dwi'n siŵr y buasai cenhedlaeth fy nhad wedi croesawu gweld diflaniad yr amlenni wythnosol, gan nad oeddent heb eu trafferthion. Yr arfer ganddo ef oedd cofnodi swm y casgliad ar bob amlen a chadw'r holl amlenni tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd profiad blynyddoedd wedi dysgu iddo ei bod yn bwysig cael dau swyddog i agor pob amlen a chyfrif y casgliad fel bod prawf ar gael o'r casgliad drwy'r flwyddyn. Wrth baratoi yr adroddiad ariannol mi fyddai rhywun yn siŵr o ddweud eu bod wedi cyfrannu mwy na'r hyn a gofnodwyd, a dyna braf fyddai gallu dweud bod y cofnod ar yr amlenni yn adrodd stori wahanol. Rhwystredigaeth arall pob trysorydd oedd cael rhai yn dal eu cyfraniad yn ôl tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Doedd hyn ddim help o gwbl wrth geisio cynnal yr achos yn ariannol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r rhain i gyd yn dangos efallai nad peth drwg bob amser yw bod ambell i arferiad yn dod i ben.



# O'r Pen Yma gan Angharad Tomos



Bûm yn y Ganolfan Arddio leol rai wythnosau yn ôl, ac mae'r daith hon yn y Gwanwyn yn o'm hoff ddefodau. Yn yr hydref, plannu bylbiau a wnaf yn y bocsys o flaen y ffenest, ac araf iawn yw'r rhain i flaguro – rhaid disgwyl drwy fisoedd hir y gaeaf. Yn y gwanwyn, mater o awr neu ddwy ydyw. Af i'r Ganolfan Arddio – dewis y lliwiau a'r ffurfiau, eu plannu – a dyna chi – gweddnewidiad llwyr i du blaen y tŷ.

Mor hardd yw'r Ganolfan Arddio – rhesi ar resi o ffurfiau cain amryliw, ac O, mor anodd yw dewis! Rhaid peidio colli'ch pen neu bydd bil go hegar yn eich aros wrth y til. Wrth



ddewis yn ofalus, caf un bob un o'r naill a'r llall, ond mae y mymryn planhigion yn fy masged yn edrych mor wahanol i'r myrdd gaiff eu harddangos. Bechod na fyddai gen i aceri o ardd i'w harddangos yn hytrach na dau focs ffenest!

Wrth yrru o'r Ganolfan Arddio, ar hyd y lôn gul wledig, mi ddotiais at y blodau sy'n harddu'r cloddiau, yn friallu, blodau'r gwynt, a rhai clychau'r gog cynnar. Er cystal oedd y sioe yn y Ganolfan Arddio, roedd hon yn rhagori. Doedd dim pall ar y wledd, fe barhaodd bron nes i mi gyrraedd adref. Roedd y cyfan ar gael i mi – a hynny am ddim.

Wedi dod adre, rhoddais y pridd yn y bocsys, a phlannu'r blodau. Oedden, roedden nhw'n ddigon del, ond rywsut rôn i'n siomedig. Yn fy ngardd, mae gen i swp o glychau'r gog, a hen ddigon o nad fi'n angof. Mewn ymdrech i efelychu'r blodau gwyllt a welais ar y ffordd adref, ceisiais blannu y rhain yn y bocsys hefyd, ond gwywo yn sydyn wnaethant.

Mae blodau'r weirglodd yn ddrych o wirionedd dyfnach. Pam ydym ni'n talu drwy ein trwynau i gael rhyw harddwch neu fodlonrwydd yr ydym ni'n credu a rydd foddhad inni? Pam na sylweddolwn fod rhoddion Duw i'w cael yn rhad ac am ddim, a'u bod yn rhagori ganwaith ar unrhyw beth yr ydym ni yn ein chwenychu? Dim ond eu derbyn sydd eisiau. Mae'n wers mor amlwg, ond yn un mor anodd i'w derbyn.

Mwynhewch y garddio!

# Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i Ebeneser, Eglwysbach am eu rhodd o £50.00 tuag at Gweithredu dros Blant, a anfonwyd ymlaen yn enw Synod Cymru.

Cawsom gyfle ar ddechrau mis Mawrth i gyfarfod, wyneb yn wyneb, â Nikki Booth. Dyma'r tro cyntaf ers dros ddwy flynedd i ni fedru gweld ein gilydd fel hyn. Mae swydd Nikki wedi newid o fewn yr elusen ond mae hi'n awyddus i barhau â'n cyfeillgarwch. Yna ar ddiwedd y mis cawsom gyfle, y tro hwn trwy'r We, i ddal i fyny gyda'n cyd-eiriolwyr Methodistaidd a Karis Kalowole (Arweinydd Partneriaethau Ffydd) a braf oedd gweld 'hen' wynebau.

Cofiwch am Sul Gweithredu dros Blant ar 10 Gorffennaf. Mae copi o'r gwasanaethau i'w gael drwy fynd i

https://www.actionforchildren.org.uk/support-us/fundraise-with-us/fundraise-in-you-church/

Mae'r adroddiad blynyddol i Synod Cymru 2021/22 ar gael yn awr. Cysylltwch â ni os am gael copi/au trwy'r We neu ar bapur.

Braint o'r mwyaf oedd i'r ddau ohonom gael ein henwebu, gan Nikki, am y *Stephenson Award 2022*, yn y categori *Supporter Achievement*. Er na chawsom ein rhoi ar y rhestr fer mi roeddem wedi cyrraedd y rhestr hir. Ni fyddem wedi cael ein hystyried oni bai am gefnogaeth aelodau a chyfeillion Synod Cymru a diolch i chi am hyn.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.

Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam,
LL11 4FF
01978 756717
cwrteden@gmail.com



# Addoliad

## *gan Alison Woodbridge*

Annwyl Frodyr a Chwiorydd,
Hoffwn rannu rhai meddyliau ynglŷn ag addoliad: beth ydy addoliad, pam a phryd ddylen ni addoli, pwy rydym yn ei addoli, a sut mae mynd ati? I ddechrau o'r dechrau felly, beth ydy addoliad? "Anrhydeddu neu fawrygu, yn enwedig â defodau crefyddol, parchu, talu gwrogaeth" yn ôl diffiniad y geiriadur. Neu benlinio neu orwedd wyneb i waered o flaen rhywun mewn gweithred o barchedigaeth. "Worship" ydy'r gair yn Saesneg, wrth gwrs, ac rwy'n cofio clywed bod hynny yn golygu "worth-ship", hynny yw ein bod ni'n datgan gwerth y person sydd yn cael ei addoli. Mae hyn yn ein harwain ni at y pwynt nesaf: pwy rydym yn ei addoli?

Mae'r ateb yn amlwg i ni, os nad i lawer o bobl y dyddiau yma. Pwy ydy'r Person anweladwy mae Cristnogion yn credu ynddo? Pwy ydy Duw? Wel, Creawdwr y bydysawd ydyw, sydd wedi amlygu ei hun i'r bobl y mae wedi eu creu, trwy ei greadigaeth, trwy ei broffwydi a thrwy ei fab Iesu, y dyn sydd yn Dduw. Rydym yn dysgu amdano yn y Beibl sydd yn dangos i ni Dduw cariad ac iachawdwriaeth, Duw sanctaidd sydd yn rheoli popeth yn ôl ei ewyllys berffaith, Duw sy'n ffyddlon ac yn dda wrth bawb, Duw sydd eisiau perthynas bersonol gyda phob person ac sy'n ein galw i droi yn ôl ato a'i garu.

Pam y dylen ni addoli'r Duw hwn? Yn gyntaf, oherwydd ei fod yn haeddu ein haddoliad a'n hufudd-dod. Mae'r Beibl yn dangos i ni fod Duw yn berffaith, yn llawn daioni ac yn fawr tu hwnt i bob dychymyg. Mae'n caru pob person y mae wedi ei greu ac yn cynnig bywyd diddiwedd i bob un sy'n ymddiried yn yr Iesu. Yn ail, oherwydd iddo roi gorchymyn i ni i wneud hyn:

"Rhowch i'r Arglwydd ogoniant ei enw;
Ymgrymwch i'r Arglwydd yn ysblander ei sancteiddrwydd."
(Salm 29:2)

"Addolwch yr Arglwydd mewn llawenydd,
Dewch o'i flaen a chân.
Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw.
Oherwydd da yw'r Arglwydd;
Y mae ei gariad hyd byth,
A'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth"
(Salm 100:2,4)

Hefyd mae addoli yn breifat ac yn gyhoeddus yn fendith i ni. Mae'n medru codi ein calonnau a chryfhau ein ffydd, yn enwedig ar adegau anodd a dychrynllyd. Mae addoli gydag eraill yn cryfhau ein perthynas â'n gilydd ac yn rhoi cyfle i ofalu am ein gilydd a chynnig anogaeth i'r rhai sy'n brwydro. Mae'n dystiolaeth hefyd i'r gymuned leol bod pobl yn dal i gredu yn Nuw ac mae'n cynnig cyfle i eraill ymuno â ni a darganfod mwy am Dduw, y Newyddion Da a'r gobaith anhygoel sydd gennym.

Nid mater o addoli'n gyhoeddus yn unig ydy addoliad, wrth gwrs. Mae'r apostol Paul yn dweud yn Rhufeiniaid 12:

"Felly, am fod Duw wedi bod mor drugarog wrthoch chi, frodyr a chwiorydd, dw i'n apelio ar i chi roi eich hunain yn llwyr i Dduw. Cyflwyno eich hunain iddo yn aberth byw, un sy'n lân ac yn dderbyniol ganddo. Dyna beth ydy addoliad go iawn!"

Os yw ein haddoliad yn y Capel yn dda, yna bydd yn gymorth i ni addoli a gwasanaethu'r Arglwydd bob dydd hefyd.

Yn olaf, hoffwn egluro yn fyr pam rwyf eisiau gwasanaethu fel arweinydd addoliad. Yn bennaf, achos bod Duw wedi dangos cymaint o ddaioni i ni yng Nghrist ac rwyf eisiau annog pobl i werthfawrogi popeth mae Ef wedi ei wneud i ni. Mae perygl i ni fod yn orgyfarwydd â'r hen emynau, heb sylweddoli pa mor wych ydy'r efengyl, pa mor fawr ydy gras Duw a pha mor bwysig ydy'r gwaith o efengylu mae Iesu wedi ei roi i ni. Rwy'n gobeithio bydda i'n medru tynnu sylw pobl at eiriau a chynnwys yr emynau a chaneuon (hen a newydd) a'u helpu nhw i elwa, i lawenhau a chael eu cryfhau a'u bendithio. Mae angen mynegi mwy o lawenydd a hefyd mwy o dristwch yn ein haddoliad, yn fy marn i. Dywedodd Iesu y dylen ni wylo gyda'r rhai sy'n wylo a llawenhau gyda'r rhai sy'n llawenhau ac mae hi'n bosibl gwneud hynny yng ngeiriau ein hemynau a chaneuon yn ogystal â'n gweddïau. Rwyf hefyd yn credu y dylem ni ddefnyddio iaith sy'n ddealladwy i bawb, gan gynnwys y plant pan fydd hynny yn bosibl, neu esbonio geiriau lle nad ydynt yn hawdd i'w deall.

Nad oes gennyf ddigon o amser na gofod i ddweud llawer mwy yn yr erthygl hon, ond gobeithio fy mod wedi dweud digon i roi rhyw fraslun i chi o fy syniadau a'm gobeithion ac efallai eich sbarduno i drafod rhai o'r pwyntiau rwyf wedi eu gwneud. Pob bendith i chi i gyd fel capeli ac unigolion yn eich addoliad personol a chyhoeddus.

***Dymunwn yn dda i Alison wrth iddi gymhwyso fel Arweinydd Addoliad cydnabyddedig yn Ebeneser, Dolgellau.***

## Cwestiwn

Fe gofiwn stori'r Dilyw, a Noa'n ddigon siŵr
Yn creu ei Arch i nofio, yn saff uwchben y dŵr.
Achubwyd ef a'i deulu, ac anifeiliaid lu
Rhag boddi yn y dyfroedd a godai o bob tu.
Pe deuai Dilyw eto i foddi yr holl fyd,
A fyddem ni, gapelwyr mwyn, o fewn yr Arch yn glyd.

*RJ*





Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd (Genesis 1:2)

# Anadla!

*gan y Parchedig Pam Cram*

Dwywaith yr wythnos rwy'n mynd i ddosbarth ymarfer corff, ymarfer wrth eistedd bore dydd Llun, a Tai Chi gydag ychydig o ymarfer aerobig ar fore dydd Iau. Weithiau mae Diane yn gofyn i ni wneud rhywbeth cymhleth ac yn chwerthin wrth edrych arnom yn canolbwyntio! Yn aml mae hi'n dweud wedyn, 'A chofiwch anadlu!'. Rydym yn anadlu yn awtomatig, wrth gwrs, ond mae'na dueddiad i beidio ag anadlu yn ddwfn neu yn rheolaidd wrth ganolbwyntio.

Er bod anadlu, diolch byth, yn awtomatig, mae'n dda i'r iechyd ystyried eich anadl. Mewn sefyllfa lawn straen mae anadlu yn ddyfnach yn tawelu'r meddwl ac yn ymlacio'r corff. Mae ymchwil wedi dangos bod anadlu trwy'r trwyn yn well i'r iechyd nag anadlu trwy'r geg. Un o'r egwyddorion mewn Tai Chi yw uno'r symudiadau corfforol a'r patrwm anadlu – eto yn dda i'r iechyd.

Un o'r delweddau a ddefnyddir am yr Ysbryd Glân yw 'anadl' ac mae anadlu yn arwyddocaol yn y Beibl. Yn hanes y cread mae Duw yn anadlu bywyd i mewn i'r dyn. Yn yr efengyl yn ôl Ioan, mae Iesu yn anadlu'r ysbryd ar y disgyblion (Ioan 20:22). Tybed a ydym ni i gyd yn profi anadl yr Ysbryd y mwyafrif o'r amser, heb sylwi, ond yn cael lles ysbrydol trwy dynnu sylw at yr anadl hwnnw hefyd? A ydym yn datblygu ein cyhyrau ysbrydol trwy anadlu yn ddyfnach mewn defosiwn tawel; yn anadlu yn ôl rhythm y Cread; ac efallai dychmygu'r Ysbryd yn dod mewn i'r corff wrth anadlu i mewn?

Un o emynau mwyaf nodedig y Pentecost yw 'Anadla, anadl Iôr' (CFf 567), gan Edwin Hatch, offeiriad ac ysgolhaig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n emyn syml iawn, yn fynegiant o'i ffydd heb unrhyw ddiwinyddiaeth gymhleth. Yn ddiddorol iawn cafodd yr emyn ei gyhoeddi yn wreiddiol fel darn o farddoniaeth mewn llyfryn gyda'r teitl 'Between Doubt and Prayer'. Mae'n bosib dychmygu Hatch yn ei stydi yn pendroni am ryw broblem ddiwinyddol, yn ymladd gydag amheuon efallai, ond yn symud wedyn tuag at gyfnod o weddi, yn ochneidio yn ddwfn, a'r syniad o anadl yr ysbryd yn datblygu fel penillion yn ei feddwl.

Mae un beirniad wedi dweud am y dôn arferol, Trentham, "One might conclude from this tune and the way it is sung that the breath of God was an anaesthetic, not a 'Giver of Life'." Ceisiwch y tonau Carlisle neu St. George. A chofiwch, mae rheoli'r anadl yn bwysig wrth ganu hefyd!



# TUDALEN Y PLANT

## SUT I FRWYDRO YN ERBYN Y DRWG

Rhaid inni fel Cristnogion frwydro yn erbyn pob peth drwg. Mae Duw yn ein helpu trwy roi arfwisg inni i'n hamddiffyn rhag drwg.

**(Effesiaid 6:13-17)**

### Dyma'r arfwisg.




**Gwirionedd** – sydd fel belt am eich canol



**Cyfiawnder** – sydd fel arfwisg dros eich brest



**Parodrwydd i ddweud mor dda yw Duw** – sydd fel esgidiau



**Ffydd** – sydd fel tarian



**Yr achubiaeth gawn ni gan Dduw** – sydd fel helmed



**Ysbryd Duw** – sydd fel cleddyf

LLUNIAU: FREE BIBLE IMAGES

### Helpa'r milwr bach i fod yn fuddugol ac ennill y dorch.



